

A469 (Caerphilly Road) – Gwelliannau Trafnidiaeth a Hygyrchedd

Disgrifiad o'r Cynllun Arfaethedig

Mae'r cynllun yn cynnwys gwella diogelwch ar y ffordd ar yr A469 (Caerphilly Road) o Lôn y Groes a St Georges Road i Tair Erw Road. Prif nodau'r cynllun yw gwella mynediad i gerddwyr a beicwyr i gymuned siopa Llwynbedw a gwella mynediad o fewn y gymuned honno.

Y prif welliant fydd darparu croesffyrdd 'syth ar draws' ar bob adain o gyffyrdd ag arwyddion Rhydelig Avenue a Birchgrove Road. Bydd cam o'r arwyddion pan gaiff yr holl draffig ei gadw ar oleuadau coch a bydd cerddwyr yn gallu cerdded ar draws y gyffordd yn ddiogel dan reolaeth golau gwyrdd (yr holl oleuadau traffig yn goch a'r arwyddion agosaf).

Ymhlith y gwelliannau eraill, darperir llwybrau beicio ar y ffordd ac oddi ar y ffordd a lôn fysis rhwng Lôn y Groes a Hampton Road. Caiff y safle bws y tu allan i 86 Caerphilly Road ei symud ymhellach i'r de er mwyn hwyluso llif dwy lôn o draffig ar draws Birchgrove Road/Heathwood Road er mwyn gwella effeithlonrwydd y gyffordd. Darperir manau parcio ychwanegol ar ochr ogleddol cyffordd Birchgrove Road ar ochr ddwyreiniol Caerphilly Road rhwng rhif 110 a 118 a'r tu allan i 1 Heathwood Road.

Project Cynlluniau Adnewyddu Cymdogaethau – Canolfan Siopa Llwynbedw

Rhodddwyd blaenoriaeth i wella Canolfan Siopa Lleol Llwynbedw dan Raglen Cynlluniau Adnewyddu Cymdogaethau'r Cyngor. Mae'r Rhaglen yn ariannu projectau adnewyddu lleol ledled Caerdydd. Bwriedir cynnal gwaith dylunio a cham ymgynghori project canolfan siopa Llwynbedw yn 2014/15 a gweithredu'r project hwnnw yn 2015/16. Mae'r project yn amodol ar gadarnhau cyllideb y Cyngor, a chaiff ei weithredu dim ond os yw arian ar gael. Hyd yma, cynhaliwyd arolwg cymunedol ynghylch y ganolfan siopa, ac mae wedi amlygu blaenoriaethau'r project adfywio. Defnyddir y blaenoriaethau hyn i lunio cydrannau'r project, a bydd y rhain yn destun rhagor o ymgynghori gydag aelodau lleol a'r gymuned. Mae cysylltiad agos rhwng y project a chynllun yr A469, a gwneir pob ymdrech i sicrhau y caiff y cynlluniau eu cydlynu er mwyn sicrhau bod y gwaith yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cyhoedd ac y gwneir y defnydd mwyaf effeithlon o'r arian sydd ar gael.

Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Lonydd Seiclo. Mae lôn seiclo yn rhan o'r ffordd sydd wedi ei neilltuo'n benodol benodol ar gyfer seiclwyr a gall fod yn lôn orfodol neu gynghorol. Er mwyn galluogi defnydd cyffyrddus gan seiclwyr, gan gynnwys y beiciau sydd ag ôl-gerbydau a beiciau/threisiâu a ddefnyddir gan bobl anabl, dylai lonydd seiclo fod yn 1.5m o led fel rheol ac fe'u dynodir gan arwyneb coch yn gyffredinol.

- Mae lonydd seiclo gorfodol yn diffinio darn o ffordd sydd wedi ei neilltuo ar gyfer seiclwyr yn unig, ac ni all cerbydau eraill ei defnyddio.
- Prif bwrpas lonydd seiclo cynghorol yw rhybuddio modurwyr o bresenoldeb posibl seiclwyr, ac annog modurwyr i gadw peth pellter oddi wrth y palmant. Fodd bynnag, caiff cerbydau modur ddefnyddio'r lonydd hyn.

Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. Cyfyngiadau yw'r rhain, a osodir ar y Briffordd, sy'n cyfarwyddo, rheoli neu wahardd symudiadau defnyddwyr y ffordd. Er enghraifft, cyfyngiadau cyflymder 20 mya. Dim Mynediad. Dim Troi i'r Dde. Traffig Unffordd. Dim Aros. Rhaid i'r rheoliadau hyn fynd trwy broses gyfreithiol hir. Os cânt eu cymeradwyo, gosodir arwyddion neu linellau ar y safle a bydd yr Heddlu neu eu Wardeniaid Traffig yn eu gorfodi.

Bwrdd Arafu. Amrywiaeth yw hwn ar y twmpath arafu lle mae pen uchaf y rhan ddyrchafedig (y bwrdd) dros ddwy fetr o led. Mae hyn yn achosi llai o anesmwythdra i deithwyr bws gan fod yr ardaloedd codi a disgyn wedi eu gwahanu gan y darn dyrchafedig. Defnyddir y rhain weithiau ar y cyd â chroesfannau cerddwyr er mwyn lleihau cyflymder a gwneud y groesfan yn fwy gweladwy i yrwyr.

Cyrbau Gostyngedig. Hon yw'r groesfan cerddwyr symlaf oll, lle gostyngir y lefel rhwng y palmant a'r ffordd gymaint â phosibl er mwyn cynorthwyo defnyddwyr cadair olwyn, pramiau a defnyddwyr eraill sydd ag anawsterau symud. Gosodir pafin botymog arnynt i rybuddio defnyddwyr â nam ar eu golwg nad oes cwrw yn gwahanu'r llwybr cerdded oddi wrth y ffordd.

Croesfan Twcan. Croesfan debyg i groesfan pâl ond ei bod ar gyfer seiclwyr yn ogystal â cherddwyr. Y prif wahaniaeth i gerddwyr a seiclwyr yw'r symbolau crwn wrth ymyl y goleuadau dyn coch a dyn gwyrdd ar y botwm pwyso. Mae'r amser croesi yn amrywio yn ôl cyflymder y cerddwyr yn croesi'r ffordd a gellir canslo'r cais i groesi os yw'r cerddwr neu'r seiclwyr yn symud o'r groesfan neu os yw wedi croesi'r ffordd cyn cael yr arwydd gwyrdd. Mae pob croesfan a reolir gan signalau yn cynnwys 'côn cyffyrddol sy'n cylchdroi' o dan yr uned pwyso botwm a ddefnyddir gan y rheiny sydd â nam ar eu golwg i ddynodi pryd bydd y traffig wedi cael golau coch.

Croesfan Cerddwyr. Croesfan cerddwyr a reolir gan signalau wrth oleuadau traffig. Ar gynlluniau newydd, mae'r arwyddion i gerddwyr fel arfer ar y botwm pwysu ond gallant fod ar signalau ar ochr arall y ffordd os oes angen. Mae pob croesfan a reolir gan signalau yn cynnwys 'côn cyffyrddol sy'n cylchdroi' o dan yr uned pwysu botwm a ddefnyddir gan bobl sydd â nam ar eu golwg i ddynodi pryd bydd y traffig wedi cael golau coch.

Croesfan Goch i Gerddwyr Croesfan cerddwyr a reolir gan signalau wrth oleuadau traffig lle bydd yr holl traffig yn stopio pan fo'r cerddwyr yn croesi'r ffordd. Gall yr arwyddion i gerddwyr fod un ai y botwm pwysu neu ar signalau ar ochr arall y ffordd os oes angen. Mae pob croesfan a reolir gan signalau yn cynnwys 'côn cyffyrddol sy'n cylchdroi' o dan yr uned pwysu botwm a ddefnyddir gan y rheiny sydd â nam ar eu golwg i ddynodi pryd bydd y traffig wedi cael golau coch.

Parcio Gwarchoddedig. Dyma lle bydd rhwystr ymwithiol ar ddiwedd ardal barcio. Mae'r rhwystr ymwithiol yn gwarchod cerbydau sydd wedi eu parcio rhag gwrthdrawiadau.

Bolard. Postyn a wneir o amryw ddeunyddiau ac a ddefnyddir i rwystro cerbydau rhag gyrru ar y llwybr troed neu ymyl y ffordd.

Llwybr a Rennir Mae'r llwybr troed hwn wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio gan gerddwyr a beicwyr. I sicrhau bod pob cerddwr a beiciwr yn gallu ei ddefnyddio heb drafferth, bydd y llwybrau hyn fel arfer yn dri metr o led a chânt eu nodi gan arwyddion a marciau ffordd. Mewn rhai sefyllfaoedd bydd y llwybr yn cael eu rhannu gyda cherddwyr ar un ochr a beicwyr ar yr ochr arall, ond mae angen llwybr lletach ar gyfer hyn a gall achosi problemau os nad yw'r defnyddwyr yn sylwi pa ochr y dylent ddefnyddio. Mae'r llwybr lletach o ddefnydd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, sgwteri symudedd a chadeiriau gwthio. Mae hefyd o fudd i feicwyr, yn enwedig y rhai sydd angen defnyddio beiciau tair olwyn neu ôl-gerbydau oherwydd oed neu anabledd ac i'r rheiny sy'n ifanc iawn neu sy'n feicwyr dibrofiad.


Arwyddion agosaf Dim ond ar yr ochr agosaf y bydd yr arwyddion gwyrdd (h.y. dim ond wrth y groesfan y bydd yr arwydd gwyrdd yn weladwy, ac nid ar ochr arall y ffordd). Mae gan y mathau hyn o groesfannau i gerddwyr y manteision canlynol:

3. Cedwir yr arwyddion traffig ar olau coch am gyfnod hwy os canfyddir bod cerddwyr yn croesi'r ffordd
4. Caiff yr arwydd golau gwyrdd ei ganslo os yw'r cerddwyr wedi croesi ac nad oes angen y goleuadau traffig coch mwyach

Bydd y nodweddion hyn yn gwella diogelwch ac effeithlonrwydd y gyffordd.

The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown below.

A full consultation pack is available at www.cardiff.gov.uk/transportprojects. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk, or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **12/10/2014**.



Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun isod.

Mae pecyn ymgynghori llawn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects. Fel arall, e-bostiwch TransportProjects@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **12/10/2014**.